# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cygnor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD LLUN, 10FED EBRILL, 2017**

Lleoliad

**Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Cae Penarlâg, Dolgellau, LL40 2YB**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 31 Mawrth 2017)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels

Annwen Hughes

Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

Louise Hughes (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Elwyn Edwards

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 9

Gŵyl Awyr Agored Eryri, Fferm Gwern Hefin, Llanycil, Bala, LL23 7YH

I ystyried y cais uchod

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **10 EBRILL 2017** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - GŴYL AWYR AGORED ERYRI , FFERM GWERNHEFIN, LLANYCIL, BALA** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

**CAIS A DDERBYNIWYD**

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Gŵyl Awyr Agored Eryri, Fferm Gwern Hefin, Llanycil, Bala, LL23 7YH, gan Brand Events TM Limited. 4 Vencourt Place, Llundain W6 9NU.

Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw perfformiadau dawns, dangos ffilmiau a dramâu, unrhyw adloniant arall a chyflenwi lluniaeth hwyr y nos ar ddydd Gwener, Sadwrn a Sul.
Fe fydd yr ŵyl yn cael ei chynnal dros un penwythnos yn flynyddol ar yr eiddo a nodir yn ystod yr Haf os fydd y drwydded yn cael ei chaniatáu.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

**Natur yr ŵyl a'r gweithgareddau arfaethedig**

Bwriedir cynnal yr ŵyl ar gaeau fferm ger y A494 rhwng Bala a Llanuwchllyn, ac mae'r tir a fwriedir ei drwyddedu yn cynnwys caeau agored a glannau caregog Llyn Tegid. Prif bwrpas y digwyddiad yw denu pobl i gystadlu mewn gweithgareddau chwaraeon awyr agored, gyda gweithgareddau trwyddedig yn cael ei gynnig fel rhan o'r ŵyl.
Fe fydd y gweithgareddau yn cynnwys bariau gwerthu alcohol, stondinau bwyd, gweithgareddau amrywiol , gwersylla ac adloniant fyw ac wedi ei recordio a'i lwyfannu.

Gofynnir am yr hawl i gyflenwi alcohol tu fewn a thu allan i'r eiddo tan hanner nos; ac fe ofynnir am yr hawl i gynnal y gweithgareddau trwyddedig a nodwyd tan hanner nos hefyd, gydag eithriad o gyflenwi lluniaeth hwyr yn y nos tan 01:00 bore, a cherddoriaeth fyw tan 23:00.

Noder fod y cais yn cael ei wneud am gyfanswm o 9,999 posib o bobl i fynychu , gan gynnwys y gynulleidfa, staff, contractwyr, arlwywr, perfformwyr, ac unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad , oddi fewn i ffiniau'r ardal drwyddedig arfaethedig..

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Cyflenwi alcohol -** Ar ac Oddi ar yr Eiddo | Gwener - Sul<br>**10:00 – 00:00** |
| **Cerddoriaeth fyw -** dan do ac awyr agored` | Gwener - Sul<br>**10:00 – 23:00** |
| **Cerddoriaeth wedi ei recordio –** dan do ac awyr agored | Gwener - Sul<br>**10:00 – 00:00** |

| | |
|---|---|
| **Perfformiadau dawns** – o dan do ac awyr agored | Gwener - Sul<br>**10:00 – 00:00** |
| **Dramâu -** o dan do ac awyr agored | Gwener - Sul<br>**10:00 – 00:00** |
| **Ffilmiau -** o dan do ac awyr agored | Gwener - Sul<br>**10:00 – 00:00** |
| **Adloniant Arall -** o dan do ac awyr agored | Gwener - Sul<br>**10:00 – 00:00** |
| **Darparu lluniaeth hwyr y nos -** o dan do ac awyr agored | Gwener -Llun<br>**23:00 – 01:00** |
| **Oriau agor a chau i'r cyhoedd** | Dydd Llun/Monday **00:00-12:00**<br>Dydd Gwener/Friday **10:00-23:59**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **00:00-23:59**<br>Dydd Sul/Sunday **00:00-23:59** |

**<u>Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu – fel rhan o'r cais</u>**

1. Fe fydd yr holl ddigwyddiad yn cael ei gynllunio a'i reoli gan unigolion proffesiynol sydd yn brofiadol yn y maes o drefnu digwyddiadau awyr agored
2. Fe fydd y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau ( ESAG) yn derbyn gwybodaeth ar y niferoedd disgwyliedig fydd yn mynychu'r ŵyl
3. Fe fydd y trefnwyr yn cydweithio gydag aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau ( ESAG)
4. Fe fydd o leiaf 90 diwrnod o rybudd o ddyddiadau'r digwyddiad yn cael ei gyfathrebu drwy'r Grŵp Ymgynghorol
5. Fe fydd Asesiadau Risg cynhwysfawr yn cael eu creu ar gyfer y digwyddiad a'r gweithgareddau trwyddedig
6. Fe fydd y digwyddiad yn cael ei gynllunio yn unol ag unrhyw reoliadau, deddfwriaeth a chanllawiau Iechyd a Diogelwch
7. Casglu ac adolygu dogfennau perthnasol mewn perthynas â materion diogelwch gan gontractwyr
8. Fe fydd darpariaethau hylendid bwyd addas yn cael eu cyflenwi ar gyfer arlwywyr
9. Fe fydd disgwyl i fasnachwyr bwyd fod yn meddu ar sgôr hylendid bwyd o 3 neu uwch
10. Cynlluniau argyfwng mewn lle ar gyfer y digwyddiad
11. Fe fydd y meysydd parcio yn cael eu rheoli gan ddarparwyr rheolaeth traffig dynodedig
12. Fe fydd adeiladau caeedig ar y safle yn derbyn asesiadau risg tan
13. Fe fydd y strwythurau dros dro i gyd yn cael archwilio gan berson cymwys cyn eu defnyddio
14. Fe fydd cyfleusterau meddygol a lles ar gael ar y safle drwy gydol y digwyddiad
15. Fe fydd cyflenwad o ddŵr yfed glan ar gael
16. Goleuo digonol i sicrhau diogelwch
17. Ni fydd cerbydau yn cael eu caniatáu ar y safle yn yr ardaloedd cyhoeddus.
18. Fe fydd agweddau diogelwch yn cael eu trafod gyda'r Heddlu ymlaen llaw, gyda thrafodaeth yn y Grŵp Diogelwch (ESAG)
19. Cynhyrchu Cynllun Rheoli Diogelwch Digwyddiad ( ESMP) cynhwysfawr mewn ymgynghoriad ag aelodau'r Grŵp Diogelwch

20. Cyflogir stiwardiaid a staff diogelwch fydd yn cael eu defnyddio mewn mannau a digwyddiadau allweddol. Fe fydd y staff diogelwch wedi eu hachredu gan yr SIA - Awdurdod Diwydiant Diogelwch
21. Fe fydd arwyddion clir ger y fynedfa safle ac ar y safle we yn manylu'r eitemau/sylweddau sydd yn cael eu gwahardd o'r safle
22. Fe fydd yn bosib archwilio aelodau'r cyhoedd am eitemau gwaharddedig yn y fynedfa; ac fe fydd staff diogelwch yn edrych allan am ymddygiad gwrthgymdeithasol neu dreisgar, ac yn adrodd ar ddigwyddiadau i Reolwr yr Ŵyl
23. Fe fydd eitemau gwaharddedig yn cael eu meddiannu; ac fe gyfathrebir y trefniadau gyda'r Heddlu
24. Fe gedwir rhestr o unigolion fydd yn cael eu gwahardd o'r safle ac fe fydd y rhestr yn cael ei rannu gyda'r Heddlu.
25. Fe fydd Polisi Alcohol a Chyffuriau yn cael ei chylchredeg i staff perthnasol, a'r Heddlu
26. Fe fydd Cynllun Rheoli Sŵn yn cael ei gynhyrchu mewn cydweithrediad a swyddogion Iechyd Amgylchedd Cyngor Gwynedd, gyda phrofion ymlediad sŵn yn cael eu cynnal ger yr eiddo agosaf i'r safle.
27. Fe fydd y Cynllun Rheoli Sŵn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor 21 diwrnod cyn y digwyddiad, ac fe fydd llinell ffon cwynion sŵn dynodedig ar agor yn ystod yr ŵyl.
28. Fe fydd Cynllun Rheoli Traffig mewn lle i reoli effaith traffig yn yr ardal leol yn dilyn ymgynghoriad a'r Asiantaeth Cefnffyrdd a'r Cyngor
29. Ni fydd mynediad i'r safle i rai o dan 18 heb oedolyn cyfrifol
30. Fe fydd oedran yn cael ei herio wrth gael mynediad i'r safle, ac fe fydd rhaid gwirio cardiau adnabod priodol
31. Gweithredir Polisi Her 25
32. Fe fydd Cynllun Asesiad Risg Diogelwch Dwr yn cael ei gynhyrchu oherwydd lleoliad yr ŵyl ar lan llyn Tegid.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M o'r cais (tudalen 18)

## YMGYNGHORIAD

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu | dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tân ac Achub | Sylwadau - dim gwrthwynebiad |
| Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri | Sylwadau - dim gwrthwynebiad |
| Cyngor Gwynedd -Iechyd yr Amgylchedd (Llygredd Sŵn) | Sylwadau - dim gwrthwynebiad, gydag amodau ychwanegol i'w cynnig |
| Cyngor Gwynedd - Uned Bwyd ac Iechyd a Diogelwch , Iechyd Amgylchedd | Sylwadau – dim gwrthwynebiad. |
| Preswylwyr cyfagos | 4 llythyr ac e-byst sylwadau a gwrthwynebiadau |

## Sylwadau ac argymhellion yr Heddlu

Nid oes gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais. Nodwyd yn y r e-bost a dderbyniwyd fod sylwadau wedi eu rhoi gan yr Heddlu ar gais trwydded draft gan yr ymgeisydd, a llawer o'r sylwadau wedi eu cynnwys ar yr atodlen weithredu yn rhan M o'r cais gan yr ymgeisydd yn dilyn hyn.

**Sylwadau ac argymhellion Gwasanaeth Tân ac Achub**

Cadarnhaodd y gwasanaeth tân nad oedd gwrthwynebiad i'r cais . Nodwyd y byddai swyddogion y gwasanaeth yn cymryd eu cyfle i graffu'r Asesiadau Risg Tân drwy gyfrwng y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau.

**Sylwadau ac argymhellion Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri**

Cadarnhawyd na ddylai unrhyw strwythur dros dro fod ar y safle fwy nag 28 diwrnod bob blwyddyn.

**Sylwadau ac argymhellion Swyddog Iechyd yr Amgylchedd , Cyngor Gwynedd**

Datganwyd nad oedd gan Iechyd Amgylchedd unrhyw bryderon sylweddol ynglŷn â sŵn o'r ŵyl; a bod trafodaethau wedi digwydd gyda'r ymgeisydd. Cafwyd cadarnhad fod bwriad dod a'r gerddoriaeth i ben am 22:30 ar y nos Sadwrn a'r nos Sul; ac mai dim ond un llwyfan gerddoriaeth fydd yn cael ei ddefnyddio.
Fodd bynnag ,yn dilyn trafodaeth gydag arbenigwr ymgynghorol yr ymgeisydd ar reoli sŵn, fe gytunwyd y byddai amodau rheoli sŵn sydd yn addas ar gyfer yr adloniant a'r lleoliad arfaethedig yn cael eu derbyn fel rhan o'r atodlen weithredol petai y cais yn derbyn cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor.

**Sylwadau ac argymhellion Swyddog Uned Bwyd ac Iechyd a Diogelwch , Iechyd Amgylchedd**

Fe nodwyd sylwadau fel a ganlyn –

- ategwyd y dymuniad i dderbyn y Cynllun Rheoli Digwyddiad ac Asesiadau Risg perthnasol dim llai na 3 wythnos cyn y digwyddiad
- Dylid sicrhau fod y Cyhoedd yn cael eu cyfeirio i ddefnyddio'r twnnel o dan yr A494 - er mwyn croesi o'r meysydd parcio i safle'r digwyddiad. Mae'r ffordd yn un brysur iawn, a dylid sicrhau goruchwyliaeth ofalus fod torfeydd yn defnyddio'r twnnel yn ddiogel.
- Fe fydd rhaid sicrhau fod trefniadau mewn lle i ddarparu dŵr yfed glan i'r maes gwersylla a'r stondinau bwyd a bariau; ac fe fydd angen cysylltu â Dŵr Cymru os yw'r cyflenwad dwr yn un cyhoeddus.
- Dylid sicrhau fod y dogfennau priodol megis cofrestriad eiddo bwyd a thystysgrifau trydanol a nwy stondinau bwyd yn cael eu cyflwyno i swyddogion y Gwasanaeth o leiaf 3 wythnos cyn y digwyddiad.
- Ategwyd yr angen i bob masnachwr /darparwr bwyd i fod gyda sgôr hylendid bwyd 3 neu uwch.
- Dylid sicrhau fod cynlluniau argyfwng mewn lle ar gyfer delio gyda sefyllfaoedd megis tywydd garw.

.
**Sylwadau a gwrthwynebiadau - preswylwyr cyfagos**

Derbyniwyd gwrthwynebiadau gan 4 unigolyn sydd yn preswylio neu yn rhedeg busnesau gwersylla ger llaw safle'r ŵyl arfaethedig.
Mae'r gwrthwynebiadau yn gyffredinol yn cael eu gwneud ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Atal Niwsans Cyhoeddus
- Diogelwch y Cyhoedd.

Fe nodir y pryderon penodol canlynol mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu hyn sef -

- Lleolir y digwyddiad mewn ardal wledig ddistaw yn agos iawn i feysydd gwersylla fydd yn llawn o deuluoedd yn dod i fwynhau tawelwch a phrydferthwch yr ardal. Mae pryderon wedi eu nodi y bydd y sŵn a'r llif oleuadau yn achosi niwsans i breswylwyr sy'n gwersylla.
- Nodwyd fod y ffordd A494 yn beryglus; ac ar ei phrysuraf ar benwythnosau yng nghanol mis Awst. Datganwyd pryder y byddai'r cynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth a'r pwysau i sicrhau parcio digonol yn creu rhwystrau traffic mewn cyfnod sydd eisoes yn brysur; ac yn creu problemau diogelwch ar y ffordd ac i wersyllwyr.
- Nodwyd fod y safle yn ymylu ar fwy nag un maes gwersylla preifat; a bod perchnogion y safleoedd hynny yn bryderus y byddai mynychwyr yr ŵyl yn tramwyo dros eu heiddo.

Nodwyd gan fwy nag un ymatebydd fod y trefnwyr wedi cyfathrebu gyda hwynt i geisio lleddfu eu pryderon, gan nodi y byddai cerddoriaeth yn dod i ben ar yr un llwyfan a ddefnyddir i'r pwrpas am 22:30 . Fe fu i'r trefnwyr hefyd gadarnhau wrth drigolion fod ffens diogelwch yn mynd i fod yn amgylchynu'r safle gyda goruchwyliaeth i sicrhau nad oes neb sy'n mynychu'r ŵyl yn tramwyo ar eiddo cyfagos.

Gweler y manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

Gofynnir yn barchus i'r Pwyllgor nodi fod yr adroddiad yn cynnwys y r oll o'r wybodaeth berthnasol hyd at y diwrnod y cyflwynir yr adroddiad i'w gyfieithu ar y 23ain o Fawrth 2017. Fe fydd unrhyw faterion ychwanegol fydd yn cael ei godi yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd neu ymatebwyr ar ôl y dyddiad hwn yn derbyn sylw aelodau'r Pwyllgor neu ymatebwyr ar ddyddiad y gwrandawiad.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.